Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion

Dydd Iau, 13 Mawrth 2025 10:00-11:30 MS Teams

Yn bresennol

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai – Cadeirydd
Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Paul Griffiths (Mynwy)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Darren Price (Sir Gaerfyrddin)
Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)
Y Cyng. Charlie McCoubrey (Conwy)
Y Cyng. Deborah Davies (Casnewydd)

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Llywodraeth Leol

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Jane Thomas (Powys) – (Prif Swyddog Cyllid) Ysgrifennydd SWT
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid
Lisa Haywood – Swyddog Polisi Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau)

Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)

Rory Powell – Ysgrifennydd Preifat
Nia Webb – Ysgrifennydd Preifat
Stephanie Wood – Ysgrifennydd Preifat
Martha O'Neil – Cynghorydd Arbennig
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Freya Gregory – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol – (Cofnodwr)

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)
David Holloway-Young – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio

Eitem 1:Croeso a Chyflwyniadau

1. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r aelodau am fod yn bresennol. Cytunodd y grŵp i dreialu defnyddio Microsoft Copilot i ddrafftio cofnodion y cyfarfod hwn gyda phrawfddarllen trylwyr gan swyddogion.

Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol

2. Cytunodd y grŵp ar gywirdeb y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol gan nodi bod y ddau gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau.

Eitem 3: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

3. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai fod y gyllideb derfynol yn cynnwys £8.24 miliwn yn ychwanegol i sicrhau cyllid gwaelodol o 3.8% yn y setliad terfynol , gan ddarparu cymorth ychwanegol i naw awdurdod lleol ledled Cymru. Yn ogystal, dyrannwyd cyfalaf o £5 miliwn i'r grant gwres carbon isel ar gyfer gwasanaethau hamdden. Roedd mân newidiadau wedi bod rhwng y setliad drafft a'r setliad terfynol, gan gynnwys cynnydd o £145,000 i ardollau Parciau Cenedlaethol a diweddariadau i ddata model y Gronfa Cyfalaf Cyffredinol.

4. Croesawodd y Cyng. Paul Griffiths y cyllid gwaelodol o 3.8% a oedd yn cefnogi gallu Sir Fynwy i bennu cyllideb a nododd fod hyn, ynghyd â'r cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol, yn caniatáu i'r Cyngor bennu cyllideb a gafodd dderbyniad cymharol dda.

5. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y byddai'n ailddyrannu arian (o leiaf £24m) o'i MEG i ddarparu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol bresennol i gefnogi pwysau, gan gynnwys gofal cymdeithasol a digartrefedd. Mewn ymateb i'r Cyng. Darren Price, cadarnhaodd Judith Cole ac Emma Smith y gellid defnyddio'r cyllid yn ystod y flwyddyn yn hyblyg o fewn y rhaglen waith ddiffiniedig ar gyfer gofal cymdeithasol.

Eitem 4: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar Adolygiad Gwariant Cymru a Chynllun Peilot Dyledion y Dreth Gyngor

6. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y trefniadau ar gyfer adolygiad gwariant Llywodraeth Cymru a fyddai'n gysylltiedig ag ymarfer y DU, ond heb fod yn ddibynnol arno (i'w gyhoeddi ar 11 Mehefin). Byddai'r adolygiad yn cynnig cyfleoedd i reoli'r gyllideb dros orwel tymor canolig, gyda llywodraeth bresennol y DU yn bwriadu ailadrodd yr ymarfer hwn bob dwy flynedd. Roedd adolygiad gwariant Llywodraeth yn anelu at:

    - archwilio sut y mae arian yn cael ei wario, yn enwedig ar uchelgeisiau trawsbynciol sy'n gofyn am gydweithio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru a chyda phartneriaid.

- symud gwariant tuag at atal, gan fuddsoddi mewn amodau sy'n creu llwyddiant yn hytrach na delio â chanlyniadau methiant.

7. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sylw at bwysigrwydd cynyddu'r sylfaen refeniw yng Nghymru. Yn ogystal â thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y fframwaith cyllidol, roedd yn awyddus i archwilio gyda llywodraeth leol ffyrdd o gynyddu llif refeniw i'r awdurdodau lleol. Er enghraifft, fe roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil ardoll ymwelwyr newydd a fyddai'n symud at Gam dau yn nhymor yr haf. Nod hyn oedd creu pwerau syml a defnyddiol i helpu'r awdurdodau i ymateb i'r costau a gynhyrchir gan dwristiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd â nifer uchel o ymwelwyr ac i fuddsoddi yn y diwydiant twristiaeth lleol.

8. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllun peilot achub dyledion cymedrol ar gyfer 2025-2026 i gynorthwyo pobl a oedd wedi disbyddu'r holl gymorth sydd ar gael i dalu eu treth gyngor. O dan y cynllun peilot bydd undebau credyd yn prynu dyled y cyngor sy'n ddyledus gan unigolion, gan ganiatáu i'r cyngor gael yr arian yn llawn. Byddai'r undebau credyd yn trefnu cynllun ad-dalu hawdd ei reoli i erydu'r ddyled a rhoi arian mewn cynilion, gan ganiatáu credyd drwy'r undeb credyd yn y dyfodol. Cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn tanysgrifennu'r ddyled a ysgwyddwyd gan yr undebau credyd. Y nod oedd troi cylch negyddol o ddyled yn un cadarnhaol, gan ddarparu offeryn newydd i'r awdurdodau lleol helpu'r rhai nad ydynt yn gallu talu eu treth gyngor. Diolchodd i'r awdurdodau sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot (Casnewydd, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent) a allai fod ar gael yn ehangach os bydd yn llwyddiannus. Roedd yn ddiolchgar am gyfraniadau'r awdurdodau at drafodaethau ar y dreth gyngor a dyled NDR a sut i wella gallu'r awdurdodau lleol i helpu'r rhai nad ydynt yn gallu talu a chryfhau eu safiad yn erbyn y rhai sy'n dewis peidio â thalu'r biliau hyn a oedd yn ariannu gwasanaethau hanfodol.

9. Ar gyfer Llywodraeth Leol, croesawodd y Cyng. Charlie McCoubrey yr ymagwedd at bob maes a amlygwyd, yn enwedig yr elfen ataliol. Nododd ef a'r Cyng. Griffiths fod y GIG wedi cynyddu o 34% i 50% o gyllid Llywodraeth Cymru, a thynnodd sylw at rôl yr awdurdodau lleol o ran atal rhywfaint o'r angen am hyn drwy gadw pobl yn iach gartref. Enghreifftiau eraill oedd rôl clybiau ieuenctid ac ymgysylltu â'r gymuned, canolfannau hamdden a gwasanaethau amgylcheddol. Roedd cyllid ar gyfer y rhain wedi cael ei wasgu'n dynn dros y degawd diwethaf.

10. Cododd y Cyng. Griffiths bryderon am orddibyniaeth ar incwm y dreth gyngor i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, gan nodi, er enghraifft, fod 60% o wasanaethau cyhoeddus Sir Fynwy yn cael eu hariannu gan y dreth gyngor a 40% gan grant. Adeg datganoli, roedd cyfraddau'r dreth gyngor yn Sir Fynwy wedi bod 25-30% yn is na siroedd cyfagos yn Lloegr ond roedd y bwlch hwnnw bellach wedi cau'n llwyr. Roedd pryderon bellach y gallai tai cyfatebol gael eu trethu'n fwy yng Nghymru nag yn Lloegr.

11. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn cytuno â phwysigrwydd gwariant ataliol ar ôl dros ddegawd o gyni. Roedd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu ailgyfeirio gwariant yn raddol tuag at wasanaethau ataliol drwy'r adolygiad gwariant. Byddai hon yn broses barhaus fel y byddai gwneud penderfyniadau yn arddel persbectif hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth y DU. Nododd fod hyn hefyd yn golygu bod y sector cyhoeddus yn gorfod ailfeddwl sut yr ymdrinnir â'r galw, i ateb y galw mewn ffyrdd eraill.

12. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn gwerthfawrogi pryderon y Cyng. ynghylch dibyniaeth ar gynyddu cyfraddau'r dreth gyngor ac y gallai'r bwlch sy'n lleihau rhwng cyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru a Lloegr fod yn destun pryder. Anogodd bo awdurdod lleol i archwilio dulliau posibl o godi arian y tu allan i'r dreth gyngor, megis yr ardoll ymwelwyr.

13. Croesawodd y Cyng. Andrew Morgan y dull gweithredu o ran yr ardoll ymwelwyr sy'n caniatáu i'r awdurdodau lleol benderfynu ar eu hanghenion eu hunain mewn perthynas â thwristiaeth. Nododd hefyd ei fod yn credu y dylai siopau y tu allan i'r dref dalu mwy o ardrethi i alluogi ardrethi ar gyfer canol trefi i gael eu gostwng. Mynegodd ef a'r Cyng. McCoubrey bryder am yr amser yr oedd yn ei gymryd i newid ffioedd a thaliadau, pan fydd awdurdodau lleol wedi nodi meysydd ar gyfer taliadau uwch, er enghraifft, ffioedd cynllunio a gofal cartref. Tynnodd y Cyng. McCoubrey sylw at yr arbedion y gallai defnyddwyr gofal cartref eu gwneud wrth symud o Loegr i Gymru. Roeddent yn galw am ddull symlach o gynyddu ffioedd ac a allai partneriaeth o awdurdodau neu fethodoleg Cymru gyfan fod yn fuddiol.

14. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y dylid cofnodi'r pwyntiau a godwyd gan y Cyng. Morgan a'r Cyng. McCoubrey yn yr adolygiad gwariant, er enghraifft drwy ystyried awtomeiddio pennu ffioedd er mwyn lleihau'r baich gweinyddol bob tro y cânt eu hailaddasu. Tynnodd sylw at allu Cymru i gymhwyso lluosydd NDR gwahaniaethol o 1 Ebrill. Roedd hyn wedi caniatáu i Loegr godi cyfraddau gwahanol o NDR ar siopa y tu allan i'r dref a byddai bellach yn bosibl yng Nghymru.

15. Wrth adael y cyfarfod, diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r grŵp am y drafodaeth.

Eitem 5: CLILC: Pennu cyllideb 2025-26 a'r rhagolygon ar gyfer y tymor canolig

16. Crynhôdd y Cyng. Andrew Morgan y gwaith o bennu cyllidebau ledled Cymru. Roedd yr holl awdurdodau wedi pennu cyllidebau, gyda chynnydd yn y dreth gyngor yn amrywio o 4.5% i 9.5%, sef cynnydd cyfartalog o 7.2%. Awgrymodd ei bod yn debygol y byddai diffyg o £40miliwn o hyd er gwaethaf hyn a chyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru. O gofio'r arbedion effeithlonrwydd a wnaed eisoes, byddai disgwyl i hyn olygu mwy o doriadau i wasanaethau. Roedd yn cydnabod y cyllid o £52 miliwn sydd i'w groesawu'n fawr ar gyfer pwysau gan gynnwys effaith cytundeb cyflog NJC a oedd wedi'i seilio ar linell sylfaen.

17. Tynnodd y Cyng. sylw at effaith codiadau cyflog. Er bod Llywodraeth Leol bob amser am allu gwobrwyo ei gweithlu'n deg, byddai hawliad yr Undebau am gynnydd o £3,000 o leiaf i bob gweithiwr yn anfforddiadwy.

18. Nododd y Cynghorydd Morgan fod 30 o awdurdodau lleol yn Lloegr bellach wedi ceisio cymorth ariannol eithriadol ac roedd yn falch o ychwanegu, er gwaethaf y pwysau cynyddol ar yr awdurdodau lleol, nad oedd unrhyw awdurdod yng Nghymru yn y sefyllfa honno. Er hynny, nododd fod hyn yn peri pryder mawr i rai awdurdodau ac amlygodd bwysigrwydd deialog reolaidd drwy drafodaethau'r grŵp hwn neu gyfarfod penodol i ddeall effaith adolygiad gwariant llywodraeth y DU a bwydo safbwyntiau llywodraeth leol i adolygiad gwariant Llywodraeth Cymru. Roedd angen i'r awdurdodau lleol gael amser i ganiatáu ar gyfer cynllunio ac ymgysylltu digonol â thrigolion.

19. Rhoddodd y Cynghorydd Morgan ADY fel enghraifft o wasanaethau y dylid eu hystyried yn benodol oherwydd galw uchel a chostau uchel. Er bod cefnogaeth i egwyddorion y bil ADY, roedd wedi codi disgwyliadau na allai'r awdurdodau lleol eu bodloni.

20. Pwysleisiodd y Cyng. Mark Pritchard a'r Cyng. McCoubrey bryderon ymhellach am ADY a phwysau eraill. Nid oedd codiadau sylweddol pellach yn y dreth gyngor yn ymarferol yn wleidyddol a byddai rhaid i awdurdodau dorri'n ôl i wasanaethau statudol. Fe wnaethant fynegi eu pryderon am degwch y fformiwla gyllido rhwng awdurdodau'r Gogledd a'r De.

21. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r grŵp am y trafodaethau hyn ac adleisiodd bwynt y Cyng. Morgan fod cyfathrebu'n gynnar ag awdurdodau lleol yn bwysig yn y broses adolygu gwariant a mecanweithiau cynllunio ariannol ehangach.

Eitem 6: Lleihau'r baich gweinyddol ar ALlau - Diweddariad

22. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i leihau'r baich gweinyddol ar yr awdurdodau lleol, gan nodi bod cyllid grant sy'n gysylltiedig â digartrefedd wedi'i drosglwyddo i'r setliad a'r gwaith parhaus ar grantiau trafnidiaeth i sicrhau bod newidiadau yn cyd-fynd â ffyrdd rhanbarthol newydd o weithio. Roedd y Cabinet wedi cytuno ar archwiliad dwfn o chwe grant i asesu costau ac adnoddau prosesu yn yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Gofynnodd i'r awdurdodau lleol ystyried grantiau y gellid eu cynnwys yn ddefnyddiol ac i roi adborth ar fanteision newidiadau a wnaed i'r grantiau addysg ddwy flynedd yn ôl.

23. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai fod y gwaith hwn yn rhan o drafodaethau strategol ehangach ar sut y mae Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn cydweithio. Byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod Cyngor CLILC ar 28 Mawrth.

24. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen am ymrwymiad ar draws y Cabinet i'r gwaith hwn. Ni ddylid hybu grantiau newydd lle y gellid ychwanegu cyllid at grant presennol neu ei ddosbarthu drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Ni ddylid lleihau grantiau a drosglwyddwyd i'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd angen mwy o gysondeb rhwng adrannau ar lefel y gwaith a'r archwilio sy'n gysylltiedig â cheisiadau cyllid i wella'r cydbwysedd rhwng yr adnodd o dan sylw ac atebolrwydd priodol. Nododd y Cyng. Griffiths fod ymgeisio cystadleuol am grantiau cyfalaf untro yn fater arwyddocaol a bod hyn wedi'i eithrio o'r rhaglen waith hon hyd yn hyn.
25. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r grŵp am yr adborth ar yr eitem hon ac ymrwymodd i rannu'r gwaith hwn gyda'r cabinet i wella'r cysondeb ar draws adrannau.

Eitem 7: Rhaglen Waith Ddrafft yr Is-grŵp Dosbarthu

26. Cyflwynodd Judith Cole y flaenraglen waith, gan dynnu sylw at y ddwy eitem flaenoriaeth uchaf sef cyflawni setliad blynyddol llywodraeth leol yn llwyddiannus, a pharhau â'r gwaith i adolygu'r elfennau o'r fformiwla ariannu y cytunwyd arnynt, gan gynnwys, addysg, gofal cymdeithasol, teneurwydd y boblogaeth ac amddifadedd. Roedd Judith yn falch o rannu bod aelod ychwanegol o staff llawn amser wedi'i sicrhau i ymgymryd â'r gwaith hwn ar ôl y Pasg.

27. Nododd Judith fod hyd presennol y rhaglen i'w briodoli i ansicrwydd ynghylch lefel y data sydd ar gael ar hyn o bryd. Pe na bai angen casglu data ar wahân, byddai hyn yn lleihau'r amser y mae ei angen.

28. Gan y byddai disgwyl i effeithiau diweddaru gwahanol IBAs fod yn wahanol rhwng awdurdodau, cadarnhaodd mai'r bwriad oedd gweithredu'r adolygiadau arfaethedig i'r fformiwla mewn un newid.

29. Diolchodd y Cyng. Darren Price i Judith am y gwaith sy'n cael ei wneud. Gofynnodd ef ac aelodau eraill i'r adolygiad i gadw mewn golwg y cydbwysedd cyllid rhwng awdurdodau gwledig a threfol. Nododd yr Aelodau yr angen i ddeall goblygiadau data poblogaeth a mynegi pryder bod addasrwydd data am brydau ysgol am ddim yn cael ei ddefnyddio yn y setliad fel mesur o amddifadedd. Gwnaethant ofyn nad oedd ystyriaeth yn gyfyngedig i ddiweddaru'r data am ddangosyddion presennol ond yn ystyried yr angen am ddangosyddion newydd a'r pwysoli a ddefnyddir. Croesawodd y Cyng. Andrew Morgan y gwaith sy'n mynd i mewn i'r adolygiad o'r fformiwla a gofynnodd i'r grŵp ystyried sut y gellid rheoli 'gorddi' y'n cael ei greu gan yr adolygiad o'r fformiwla i sicrhau y gellir defnyddio'r data diweddaraf a gorau heb achosi ansefydlogrwydd i'r awdurdodau yr effeithir arnynt. Er enghraifft, ystyried graddoli neu ddefnyddio cyfartaleddau.

30. Adleisiodd y Cyng. Paul Griffiths gefnogaeth i'r gwaith a'r adnodd ychwanegol. Pwysleisiodd yr angen am gyfathrebu i hyrwyddo'r gwaith a'r gwaith blynyddol parhaus i gefnogi aelodau i esbonio rhesymeg yr effeithiau ar eu hawdurdodau.

31. Dywedodd Judith fod angen bwrw ymlaen â gwaith ar ddata am brydau ysgol am ddim mewn cydweithrediad ag adrannau eraill sydd hefyd yn dibynnu ar hyn fel dangosydd amddifadedd. Cadarnhaodd nad oedd y gwaith wedi'i gyfyngu i'r data a ddefnyddir ar hyn o bryd, ac y bydd pwysoliadau'n deillio o gydnawsedd y data mwyaf addas â gwariant awdurdodau lleol. Sicrhaodd Judith y grŵp y byddai ymgynghori â'r Is-grŵp Cyllid ar yr opsiynau sy'n ymwneud â'r dangosyddion hyn ac ar reoli effeithiau cyffredinol gweithredu unwaith y cytunir arnynt. Byddai cyfleu'r gwaith hwn i'r awdurdodau yn hanfodol a byddai angen cynnwys swyddogion yn y meysydd gwasanaeth.

32. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i Judith a thîm y setliad am eu gwaith ar hyn gan ddiolch i'r grŵp am ei adborth drwy gydol y cyfarfod, gan dynnu sylw at yr angen i gyfathrebu cynnar fod yn thema drwy'r holl eitemau a drafodwyd.

Eitem 8: Unrhyw faterion eraill

33. Ni chodwyd unrhyw fater arall.